# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 13 Gorffennaf 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru nifer y galwadau ffôn a dderbyniwyd gan bob swyddfa llygad busnes, fesul mis, yn ystod pob un o'r 12 mis diwethaf. (WAQ47545)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru nifer y cwmnïau a gynorthwywyd gan bob swyddfa llygad busnes yn ystod pob un o'r 12 mis diwethaf. (WAQ47544)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa ddadansoddiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gost hyrwyddo llygad busnes o'i chymharu â nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd. (WAQ47546)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad am sawl gwaith yr ymwelwyd â gwefan llygad busnes yn ystod pob un o'r 12 mis diwethaf. (WAQ47547)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Leighton Andrews (Gorllewin De Cymru):** Pa adolygiadau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal ar gynlluniau bwyta'n iach. (WAQ47550)

**Leighton Andrews (Gorllewin De Cymru):** Faint o fenywod yn Rhondda Cynon Taf sy'n manteisio ar apwyntiadau sgrinio'r fron, pa ganran gaiff eu sgrinio bob tair blynedd a faint dros 70 oed sy'n cyfeirio'u hunain. (WAQ47549)

**Leighton Andrews (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y gweinidog ddatgan a yw'r targedau o sicrhau bod y rheiny a gaiff eu sgrinio ar gyfer canser y fron yn cael eu galw'n ôl bob 3 blynedd yn cael eu cyflawni. (WAQ47548)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A oes gan Gymru gynllun wrth gefn y gellir ei roi ar waith pan ddigwydd pandemig, ac a fydd y Grwp Trawsbleidiol ar gyfer Angladdau a Phrofedigaeth yn cymryd rhan mewn trafodaethau pellach ynghylch materion sy'n ymwneud ag angladdau a phrofedigaeth. (WAQ47551)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa drafodaethau sydd wedi'u

cynnal rhwng ei swyddfa ef a swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch rheoli pandemig. (WAQ47552)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa drefniadau ychwanegol a wneir i sicrhau bod celanedd sydd wedi'u heintio'n cael eu gwaredu'n effeithlon. (WAQ47553)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Sut y caiff y cyhoedd eu hysbysu o'r rhagofalon y dylent eu cymryd i atal clefydau heintus rhag lledaenu pan fydd pandemig yn digwydd. (WAQ47554)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pwy yw'r grwpiau â blaenoriaeth a fydd yn cael eu brechu pan ddigwydd pandemig. (WAQ47555)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A allai'r Gweinidog nodi'r trefniadau a wnaethpwyd i warchod a diogelu pobl Cymru pe digwyddai pandemig. (WAQ47556)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno i'r Adran Materion Cyfansoddiadol ynghylch y cynigion i ddiwygio Gwasanaeth y Crwner yng Nghymru. (WAQ47557)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch y cynigion i ddiwygio Gwasanaeth y Crwner yng Nghymru. (WAQ47558)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y bydd cynigion i ddiwygio Gwasanaeth y Crwner gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd i bobl Cymru. (WAQ47559)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynigion i ddiwygio Gwasanaeth y Crwner gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol gyda golwg ar amgylchiadau daearyddol Cymru. (WAQ47560)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynigion i ddiwygio Gwasanaeth y Crwner gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol gyda golwg ar recriwtio a monitro gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd. (WAQ47561)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A yw'r Gweinidog wedi cyfarfod ag ASau Cymru i drafod y cynigion i ddiwygio Gwasanaeth y Crwner yng Nghymru. (WAQ47562)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Ymhellach i'w ymateb i WAQ47397; a wnaiff y Gweinidog fanylu ar y dangosyddion a'r ystadegau capasiti pwysau

a ddarparwyd ar gyfer ysbytai Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a’r Canolbarth ac ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin. (WAQ47563)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Gan fod y cynulliad Cenedlaethol eisoes wedi llofnodi cytundeb deng mlynedd ar gyfer y DU-gyfan i werthuso effeithiolrwydd cyffuriau lliniaru clefydau gyda charfan o oddeutu 5200 o gleifion, beth y mae'r Gweinidog yn disgwyl ei ennill o adolygiad pellach gan Gomisiwn Iechyd Cymru o effeithiolrwydd y cyffuriau hyn a hynny heb allu manteisio ar yr un lefel o ddata am gleifion. (WAQ47565)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Beth sy’n cael ei wneud i helpu'r 25 claf sydd wedi cael eu hasesu ar gyfer cyffuriau lliniaru clefyd dan delerau Cylchlythyr Iechyd Cymru (2002) 16 ac a ddylai yn awr dderbyn y triniaethau hyn, ond sydd mewn gwirionedd yn disgwyl cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn groes i'r gofynion i drin y cylchlythyr yn yr un modd â gwerthusiad cadarnhaol gan NICE. (WAQ47565)